

Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

Corporate Director and Statutory Director of Social Services

Awen Morwena Edwards

Gofynnwch am/Ask for: **A M Edwards**

(01286)

679468

Ein Cyf /OurRef:

AME/MJ

AwenMorwenaEdwards@gwynedd.gov.uk

Eich Cyf /Your Ref:

2 Chwefror 2015

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hyn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwar Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Annwyl Gomisiynydd

Adolygiad o Gartrefi Gofal

Diolch am eich llythyr dyddiedig y 12fed o Ragfyr ynghylch y Gofynion Gweithredu a gyhoeddwyd gennych fel rhan o'r adroddiad ar yr Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Amgaeaf gopi o'r Rhaglen Waith a luniwyd yma yng Ngwynedd fel ymateb i'r gofynion a nodaf ein bod wedi ymestyn ychydig ar ein hymateb y tu hwnt i'r gofynion sy'n berthnasol i Awdurdodau Lleol yn unig

- gan ein bod yn ddarparwr gofal preswyl gyda nifer o gartrefi o fewn y Sir
- gan ein bod eisoes wedi sefydlu strwythur ymgysylltu gyda lechyd a'r Trydydd Sector (Fforwm Sirol) sy'n rhoi'r cyfle i ddatblygu gwasanaethau integredig ac ymateb i rwystrau neu broblemau gyfyd yn sgil yr ymdrechion yma a
- gan ein bod yn teimlo y dylem ddechrau paratoi ar gyfer gweithredu ar ofynion i eraill lle y bydd gennym rôl i'w chwarae yn y pen draw

O ran monitro cynnydd y Rhaglen byddwn yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Fforwm Sirol ar yr agweddau hynny sy'n gofyn am gydweithio agos rhyngom ni, lechyd a'r Trydydd Sector.

Mawr obeithiwn y bydd ein Rhaglen Waith yn fodd i gyflawni'r canlyniadau rydych yn eu disgwyl ar gyfer pobl hŷn mewn cartrefi preswyl a nyrsio yma yng Nghymru. Rydym yn croesawu eich bwriad i drefnu cyfarfodydd anffurfiol yn lleol rhyngom ni a chyrrff perthnasol eraill ac edrychwn ymlaen at gydweithredu a'ch swyddogion.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.gov.uk

Os yr hoffech drafod unrhyw agwedd o'r Rhaglen Waith neu os oes gennych gwestiynau mae croeso i chwi gysylltu â mi.

Yr Eiddoch yn Gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Morwena Edwards". The signature is written in a cursive, flowing style.

Morwena Edwards

Cyfarwyddwr Corfforaethol a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol